

'CLECS' O'R CLYBIAU



Y Clydau'n Cloccio/Rhai o aelodau CG Y Clydau, Sir Benfro yn cael hyfforddiant arbennig gan Carwyn, un o Ddawnsywyr enwog Talog. Yr Eisteddfod Genedlaethol amdani nesaf ferched?

Cafodd CG Ogrwr noson gymdeithasol gyda Changen Pen-y-bont Nos Iau 7 Mai ym mar Cabo Roche ym Mhen-y-bont a thua 25 wedi mynychu. Noson 'swisho' oedd hi, sef bod angen i bawb ddod a rhyw 3 eitem neis oedd ganddynt gartref roeddynt yn hoff ohono ond ddim yn ei ddefnyddio mwyach i gyfnewid am rywbeth newydd. Cafwyd pob math o eitemau. Rhoddodd pawb gyfraniad i'w gyfnewid, ac ynghyd a'r râffll llwyddwyd i godi £120 tuag at Wyl Gerdd Dant Porthcawl 2015 a Chronfa Nepal.



Enillwyr £100/
CG Y Sosban Llanelli oedd enillwyr lwcus eleni – dyma Helen a Rhianedd (Swyddogion y Clwb), a Ruth (Swyddog Clybiau Gwawr). I gael siawns i ennill £100 i'ch clwb chi, cofiwch mai dyna i gyd sydd angen yw eich bod yn anfon eich Rhaglen 2015-16 at eich Swyddog Clybiau Gwawr chi erbyn diwedd mis Hydref, a thalu tâl aelodaeth mewn amser. Symb!

Nosweithiau amrywiol CG Cylich Cennin: Ymweliad ag Orsaf Dàn Cei Newydd a Swper Dathlu Penblwydd 11 mlynedd y clwb yn y 'Belle Vue' Aberystwyth. Os edrychwch yn ofalus, gallwch weld bod pawb yn gwisgo cyfareddwr i ddathlu'r achlysur (y noson yn y Belle Vue, hynny ydy, dim yn yr Orsaf Dàn)!



Clybiau'n Cwrdd/Aelodau Clybiau Glannau Teifi a'r Wiber yn ymuno i ymweld â Chwmni Fferyllol 'Protherics' yn Ffostrasol. Mae Siwan, aelod CG Glannau Teifi, (rhes gefn ar y pen ochr dde) yn gweithio ar y safle ers sawl blwyddyn. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad, diolch iddi. Ac i orffen y noson – wel, camu drws nesaf i gael swper blasus ym Mwyty Eidalaid La Calabria.



Cadw'n Heini a Chodi Arian/Dyma Sara o Gampfa 'Curves' Caerfyrddin (yn y canol mewn top coch) gydag aelodau CG Y Gwendraeth. Campfa i fenywod yn unig yw 'Curves', a bu Sara yn sôn am gadw'n heini ac am bwysigrwydd cadw'r galon yn iach. Roedd pawb wedi dod ag ategolion ac fe godwyd £50 tuag at ymgyrch diweddaraf MyW, sef Ymchwil y Galon.